# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaeth Democratiaeth**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**PWYLLGOR YMGYNGHOROL HARBWR PORTHMADOG**

Dyddiad ac Amser

**5.30 y.h., DYDD MAWRTH, 27AIN CHWEFROR, 2024**

Lleoliad

**Cyfarfod Rhithiol / Virtual Meeting**

**(Am fynediad cyhoeddus i'r cyfarfod, cysylltwch â ni)**

Pwynt Cyswllt

**Eirian Roberts**

**01286 679018**

**eirianroberts3@gwynedd.llyw.cymru**

(DOSBARTHWYD Dydd Llun, 19 Chwefror 2024)

## AELODAETH:

### Cyngor Gwynedd:

| | |
|---|---|
| Nia Wyn Jeffreys | Aelod Lleol |
| Gwilym Jones | Aelod Lleol |
| June Jones | Aelod Lleol |

### Aelodau Cyfetholedig:

| | |
|---|---|
| Aled Griffith | Cynrychioli Cyngor Tref Porthmadog |
| I'w gadarnhau | Cynrychioli Buddiannau Perchenogion Tir |
| I'w gadarnhau | Cynrychioli Buddiannau Harbwr |
| Dr John Jones-Morris | Cynrychioli Buddiannau Hamdden |
| Ian Roberts | Cynrychioli Buddiannau Diwydiannol |
| Robert Owen | Cynrychioli Buddiannau Masnachol |
| Will Walker-Jones | Cynrychioli Sefydiad y Bad Achub Cricieth |

### Sylwedyddion:

| | |
|---|---|
| Desmond George | Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Aberdyfi |
| David Williams | Dirprwy – Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Aberdyfi |
| Stephen Tudor | Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Pwllheli |

# RHAGLEN

**1. YMDDIHEURIADAU**

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Derbyn unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

**3. MATERION BRYS**

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd.

**4. COFNODION** 4 - 6

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion y cyfarfod o'r pwyllgor hwn a gymhaliwyd ar 3 Hydref, 2023 fel rhai cywir.

**5. DIWEDDARIAD AR FATERION RHEOLAETHOL YR HARBWR** 7 - 14

Cyflwyno adroddiad yr Uwch Swyddog Harbyrau.

**6. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF**

Nodi y cynhelir cyfarfod nesaf Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Porthmadog ar 1 Hydref, 2024 (yn ddarostyngedig i'w gadarnhau gan y Cyngor Llawn.)

# PWYLLGOR YMGYNGHOROL HARBWR PORTHMADOG 3/10/23

**YN BRESENNOL:**

Y Cynghorydd Gwilym Jones (Cyngor Gwynedd) (Cadeirydd)
Y Cynghorydd June Jones (Cyngor Gwynedd) (Is-gadeirydd)

Y Cynghorydd Nia Jeffreys (Cyngor Gwynedd), Robert Owen (Cynrychiolydd Buddiannau Masnachol) a Will Walker-Jones (Sefydliad y Bad Achub Criccieth).

**HEFYD YN BRESENNOL:** Llyr Beaumont Jones (Pennaeth Cynorthwyol Economi a Chymuned), Bryn Pritchard-Jones (Rheolwr Gwasanaeth Morwrol), Arthur Francis Jones (Uwch Swyddog Harbyrau), Malcolm Humphreys (Harbwrfeistr Porthmadog) ac Eirian Roberts (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth).

**SYLWEDYDD:** Desmond George (Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Aberdyfi)

Croesawyd Will Walker-Jones, cynrychiolydd Sefydliad y Bad Achub Criccieth, i'r cyfarfod.

**1. ETHOL CADEIRYDD**

**PENDERFYNWYD ethol y Cynghorydd Gwilym Jones yn gadeirydd ar gyfer 2023/24.**

**2. ETHOL IS-GADEIRYDD**

**PENDERFYNWYD ethol y Cynghorydd June Jones yn is-gadeirydd ar gyfer 2023/24.**

**3. YMDDIHEURIADAU**

Ni dderbyniwyd unrhyw ymddiheuriadau.

**4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

**5. MATERION BRYS**

Ni dderbyniwyd unrhyw faterion brys.

**6. COFNODION**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 7 Mawrth, 2023 fel rhai cywir.

**7. DIWEDDARIAD AR FATERION RHEOLI'R HARBWR**

Cyflwynwyd yr adroddiadau isod a gwahoddwyd adborth gan yr aelodau ar faterion diogelwch a materion gweithredol yr harbwr.

(1) Adroddiad yr Uwch Swyddog Harbwr yn rhoi diweddariad bras i'r pwyllgor ar faterion yr harbwr ar gyfer y cyfnod rhwng Mawrth a Hydref, 2023.

Fel rhan o'r adroddiad, rhoddodd y Rheolwr Gwasanaeth Morwrol grynodeb byr o gyllidebau'r Harbwr 01/4/23 - 31/3/24 (Adolygiad Awst 2023), a gynhwyswyd fel atodiad i'r adroddiad.

Manylodd hefyd ar ddangosyddion perfformiad y Gwasanaeth (oedd hefyd wedi'u cynnwys fel atodiadau i'r adroddiad).

Ar bwynt cyffredinol, diolchwyd i'r Gwasanaeth Morwrol am eu gwaith yn ystod yr haf yn cadw pawb yn ddiogel ar y traethau, ac am ddod â chyllideb gytbwys gerbron y pwyllgor.

(2) Adroddiad yr Harbwrfeistr yn crynhoi'r materion Mordwyo a Gweithredol a wnaed ac a brofwyd yn y cyfnod rhwng Mawrth a Hydref 2023, gynnwys materion cynnal a chadw.

Codwyd materion o dan y penawdau isod:-

<u>Materion Gweithredol</u>

Gan gyfeirio at y ddau achos diweddar o lygredd yn yr harbwr (paragraffau 2.2 a 4.2 o'r adroddiad), holwyd a fyddai'n bosib' i faterion o'r fath gael eu dwyn i sylw'r aelodau lleol ar y pryd, yn hytrach nag aros tan gyfarfod nesaf y pwyllgor, fel bod modd i'r aelodau ymateb i ymholiadau gan eu hetholwyr. Mewn ymateb, nodwyd:-

- Y derbynnid y pwynt ac y ceisid diweddaru'r aelodau lleol pan mae yna ddigwyddiadau eithaf difrifol yn yr harbyrau.
- Y gellid cadarnhau bod yr awdurdodau perthnasol wedi'u hysbysu o'r 2 ddigwyddiad dan sylw a bod yr holl weithdrefnau angenrheidiol wedi'u dilyn.
- Bod syrfëwr morol wedi'i gomisiynu i wneud archwiliad o gyn-gwch bysgota'r '*Beverley'* oedd wedi gorlifo yn ystod glaw trwm a suddo'n rhannol gan ryddhau swm bach o danwydd diesel i ddŵr yr harbwr. Roedd archwiliad wedi'i wneud o'r cwch tra yn y dŵr, a hefyd yn sgil ei hail-leoli ger llithrfa'r harbwr. Unwaith y derbynnid adroddiad y syrfëwr, bwriadai'r Gwasanaeth drafod cynnwys yr archwiliad gyda pherchennog y cwch, a byddai'r aelodau yn cael eu diweddaru unwaith y byddai rhagor o fanylion ar gael.
- Bod Cyfoeth Naturiol Cymru yn ymchwilio i'r hylif sy'n dod o'r bibell arllwys ger y bont ffordd yn rhan Ogleddol yr harbwr yn ystod glaw trwm. Ni dderbyniwyd adroddiad ysgrifenedig ffurfiol ganddynt hyd yma, ond byddai'r aelodau'n cael eu diweddaru unwaith y byddai gwybodaeth ar gael ynglŷn â tharddiad y llygredd.

Holwyd beth fyddai'n digwydd i gwch y '*Beverley'* yn y dyfodol. Mewn ymateb, nodwyd y byddai'n rhaid aros am adroddiad y syrfëwr morol ar gyflwr y cwch a thrafod gyda'r perchennog cyn y gellid gwneud unrhyw benderfyniad ynglŷn â beth fyddai'n digwydd i'r cwch yn y dyfodol.

Nododd yr Harbwrfeistr y dymunai ddiolch i gwmni Robert Owen Marine Porthmadog am roi benthyg bad dŵr personol i'r Gwasanaeth ar gyfer patrolio sianel Porthmadog.

<u>Cynnal a Chadw</u>

Ymhellach i gynnwys yr adroddiad, eglurodd y Rheolwr Gwasanaeth Morwrol nad oedd y gost net o £12,293 am ddwy injan newydd i'r cwch patrôl Powercat wedi dod o gyllideb eleni, ond yn hytrach wedi'i dalu allan o gronfa arbennig ar eu cyfer.

Hefyd, ymhellach i gynnwys yr adroddiad, nododd yr Harbwrfeistr fod y Gwasanaeth wedi buddsoddi £1,200 mewn prynu drôn a bod y staff wedi derbyn hyfforddiant ar sut i'w ddefnyddio. Nodwyd bod y drôn o gymorth mawr yn dod o hyd i fwiau sydd wedi mynd ar goll, a gallai hefyd amlygu pan fo pobl ar draethau mewn perygl o gael eu hamgylchynu gan y llanw.

Materion Eraill

Llongyfarchodd y Pennaeth Cynorthwyol Economi a Chymuned staff yr harbwr ar eu gwaith yn cynorthwyo gyda'r paratoadau ar draeth Morfa Bychan i dderbyn y bad camlas mawr oedd yn cludo trawsnewidydd trydanol ar gyfer Gorsaf Bŵer Trawsfynydd. Nodwyd hefyd bod y cwmni wedi ysgrifennu at y Cyngor i ddatgan eu bodlonrwydd gyda'r trefniadau.

Holwyd a godwyd ffi ar y cwmni gan fod y trefniadau wedi golygu cryn waith a chostau i'r Adran. Mewn ymateb, eglurwyd bod y swyddogion morwrol wedi cadw cofnod o'r holl arwyddion, ffensys, blociau concrit, ayb, oedd wedi'u harchebu, ynghyd â'r ffi gweinyddu, ac felly bod y Gwasanaeth wedi mwy na'u digolledu am y gost.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Adran Forwrol am ddarparu gwybodaeth i'r cynghorwyr ac am ateb ymholiadau mor sydyn.

Pwysleisiodd y Rheolwr Gwasanaeth Morwrol y dymunai'r Gwasanaeth atgoffa pawb o'r angen i sicrhau bod y giatiau amddiffyn rhag y môr ym Morth y Gest yn aros wedi cau yn ystod y gaeaf.

**PENDERFYNWYD nodi a derbyn yr adroddiad.**

**8. CYFARFOD NESAF**

Nodwyd y cynhelir y cyfarfod nesaf ar 27 Chwefror, 2024.

Dechreuodd y cyfarfod am 5.30yp a daeth i ben am 6.15yp.

**CADEIRYDD**

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Porthmadog** |
| **DYDDIAD** | **27 Chwefror 2024** |
| **TEITL** | **Diweddariad ar Faterion Rheoli'r Harbwr** |
| **AWDUR** | **Uwch Swyddog Harbyrau** |

**1. Cyflwyniad**

1.1 Prif swyddogaeth y Pwyllgor yw ystyried, trafod a chynghori ar faterion sy'n ymwneud â rheoli, diogelu a datblygu'r Harbwr a derbyn sylwadau'r Aelodau ar faterion sy'n ymwneud â Harbwr Porthmadog.

1.2 Diben yr adroddiad hwn yw rhoi diweddariad bras i'r Pwyllgor ar faterion yr harbwr am y cyfnod rhwng mis Hydref 2023 a Chwefror 2024, er mwyn cael adborth gan yr aelodau ar faterion diogelwch a materion gweithredol yr Harbwr.

1.3 Sefydlwyd Pwyllgorau Harbwr Abermaw, Aberdyfi a Phwllheli dan adran 102(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972. Mae Pwyllgor Harbwr Porthmadog yn Bwyllgor Harbwr statudol, a sefydlwyd yn unol ag Adran 6(2) (a-j) Gorchymyn Addasu Harbwr Porthmadog 1998.

**2. Angorfeydd Porthmadog a Chofrestru Cychod.**

2.1 Cyn cyfnod y Pasg, bydd yr Harbwrfeistr a'i Gymhorthydd yn goruchwylio'r gwaith o adnewyddu'r cadwyni codi ac angorfeydd tir a leolir yn yr harbwr. Cwblheir y gwaith gan gontractwr angorfeydd a benodwyd yn lleol.

2.2 Disgwylir i gwsmeriaid sy'n dymuno cael angorfa yn yr harbwr neu gofrestru eu cychod dŵr ar gyfer y tymor sydd i ddod gwblhau'r broses ar-lein yn brydlon trwy wefan Cyngor Gwynedd, cyn gynted ag y bydd y ffioedd priodol wedi'u cadarnhau. Wedi hynny, dylai cwsmeriaid angorfeydd gysylltu â'r Harbwrfeistr i gadarnhau eu lleoliad angori yn yr harbwr.

2.3 Mae'r Gwasanaeth yn edrych ymlaen yn obeithiol at gyfnod prysur yn ystod yr haf eleni ac y bydd cwsmeriaid yr harbwr ac ymwelwyr yn mwynhau amgylchedd yr harbwr.

**3. Cod Diogelwch Morol Porthladdoedd.**

3.1. Mae'r Cod Diogelwch Morol Porthladdoedd (PMSC) yn amlinellu'r safon genedlaethol ar gyfer pob agwedd o ddiogelwch morol porthladdoedd. Ei nod yw gwella diogelwch i bawb sy'n defnyddio neu'n gweithio yn amgylchedd morol porthladdoedd. Mae'n berthnasol i bob Awdurdod Harbwr Statudol.

Mae'r Cod yn nodweddu arfer dda a gydnabyddir gan amrediad eang o fudd-ddeiliaid yn y diwydiant ac mae Cyngor Gwynedd yn deall y gall peidio â chadw at arfer dda fod yn arwydd o awdurdod harbwr sy'n torri dyletswyddau cyfreithiol penodol.

3.2 Mae'r Gwasanaeth yn adolygu'r Cod Diogelwch Morol yn rheolaidd ar gyfer yr harbyrau dan ei awdurdodaeth er mwyn sicrhau ei fod yn parhau i gydymffurfio'n llawn â gofynion presennol y Cod. Fel rhan o'r broses adolygu, mae'n angenrheidiol derbyn sylwadau a barn Aelodau'r Pwyllgor Ymgynghorol ar ba mor addas yw'r Cod Diogelwch Morol Porthladdoedd ac i dderbyn sylwadau'n rheolaidd ar ei gynnwys, yn benodol o ran perthnasedd gyda gweithgarwch yr harbwr, cymhorthion

mordwyo, addasrwydd is-ddeddfau, materion diogelwch a gwaith dydd-i-ddydd cyffredinol yn Harbwr Porthmadog.

**4. Materion Staffio.**

4.1 Mae'r Harbwrfeistr, Mr Malcolm Humphreys, a'i gymhorthydd, Mr Richard Hughes, yn parhau i ddarparu gwasanaeth i gwsmeriaid yr harbwr ac ymwelwyr yn Harbwr Porthmadog. Pe bai ymrwymiadau gwaith yn gofyn am hynny, mae'r staff Morwrol sydd wedi'u lleoli yn harbyrau Abermaw ac Aberdyfi hefyd ar gael i gynorthwyo os oes angen.

4.2 Dros y gaeaf, mae'r swyddogion wedi ymgymryd â gwaith cynnal a chadw yn yr harbwr, yn ychwanegol at waith a wnaed ym Morth-y-gest ac ar draethau cyfagos Morfa Bychan a Chricieth.

4.3 Mae swydd lawn amser Swyddog Traethau, wedi'i leoli yn Harbwr Porthmadog, i weithio ar hyd traethau'r arfordir cyfagos, bellach wedi ei llenwi. Yn dilyn proses gyfweld, bydd yr ymgeisydd llwyddiannus, Mr Math Roberts, yn dechrau gyda'r Gwasanaeth ar 1 Mawrth 2024. Yn ôl yr arfer, bydd Swyddogion Traethau tymhorol hefyd yn cael eu penodi mewn pryd ar gyfer dechrau cyfnod prysur yr haf, i weithio ar draethau Morfa Bychan a Chricieth.

**5. Materion Ariannol.**

5.1 Bydd Rheolwr y Gwasanaethau Morwrol yn darparu crynodeb bras o gyllideb yr harbwr a'r sefyllfa ariannol gyfredol hyd at ddiwedd y flwyddyn ariannol.

5.2 Yn ystod y gaeaf, roedd yn rhaid ymrwymo adnoddau ariannol ar gyfer yr hyn a ganlyn:

- Cynnal a chadw cymhorthion mordwyo a goleufeydd
- Cynnal a chadw offer a chyfarpar yr harbwr
- Cynnal a chadw angorfeydd y Cyngor
- Cynnal a chadw a gweithredu cwch patrôl Powercat yr harbwr
- Cynnal a chadw tiroedd a meinciau

5.3 **Ffioedd a Thaliadau. 2024/25.**

O ran ffioedd a thaliadau arfaethedig ar gyfer Harbwr Porthmadog, ynghyd â ffioedd lansio ar gyfer Cychod Pŵer a Chychod Dŵr Personol ar gyfer tymor 2024/25, fel ag o'r blaen, mae'r Gwasanaeth yn bwriadu addasu'r ffioedd yn unol â chyfradd chwyddiant ar y pryd. Fodd bynnag, hyd yma, ni wnaed unrhyw benderfyniad ynghylch lefel y ffioedd ar gyfer y tymor nesaf.

**6. Adroddiad yr Harbwrfeistr.** Bydd Harbwrfeistr Porthmadog yn darparu crynodeb o'r materion Mordwyo a Gweithredol a wnaed ac a brofwyd yn y cyfnod rhwng mis Hydref 2023 a Chwefror 2024, gan gynnwys materion cynnal a chadw. Mae copi o'i adroddiad ynghlwm.

| HARBWR PORTHMADOG | Perfformiad Ariannol am y cyfnod 1 Ebrill 2023 at 31 Mawrth 2024 - Adolygiad Tachwedd 2023 | | |
|---|---|---|---|
| GRWP | CYLLIDEB 1/4/23 at 31/3/24 | GWARIANT A RHAGWELIR 1/4/23 at 31/3/24 | GOR (TAN) |
| Gweithwyr | 71,000 | 75,284 | 4,284 |
| | | | |
| Eiddo | 26,970 | 6,573 | (20,397) |
| | | | |
| Trafnidiaeth | 860 | 431 | (429) |
| | | | |
| Gwasanaethau a Cyflenwadau | 12,900 | 21,863 | 8,963 |
| | | | |
| Gwariant Un Tro - Ariannu o Cronfeydd yr Adran | 0 | 36,000 | 36,000 |
| | | | |
| Cyfanswm Gwariant | 111,730 | 140,151 | 28,421 |
| | | | |
| Incwm | (80,140) | (73,943) | 6,197 |
| Cyfraniad o Cronfeydd | 0 | (36,000) | (36,000) |
| | | | |
| Cyfanswm Net | 31,590 | 30,208 | (1,382) |

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Porthmadog** |
| **DYDDIAD** | **27 Chwefror 2024** |
| **TEITL** | **Adroddiad yr Harbwrfeistr** |
| **AWDUR** | **M. Humphreys, Harbwrfeistr** |

## H 1 Materion Mordwyo

1.1 Mae staff yr harbwr wedi parhau i fonitro cwrs y sianel fordwyo dros gyfnod y gaeaf. Er gwaethaf stormydd y gaeaf hyd yma a’r cynnydd o ganlyniad yn y cyfaint o ddŵr sydd wedi bod yn llifo allan o afonydd Glaslyn a Dwyryd, nid yw cwrs y sianel fordwyo wedi newid.

1.2 Bydd arolygon pellach ar y sianeli yn cael eu cynnal wrth i dymor y gwanwyn agosáu. Os bydd angen, bydd y marciau mordwyo yn cael eu symud gan staff yr harbwr i gynorthwyo morwyr i ddefnyddio'r llwybr mwyaf diogel i'r harbwr ac oddi yno.

1.3 Ar hyn o bryd, mae un Hysbysiad Lleol i Forwyr mewn grym:

1.3.1 Hysbysiad Lleol i Forwyr Rhif 19/23. Nid yw'r golau bwi Fairway ym Mhorthmadog a leolir yn safle 52°52.970’N 004°11.200’W. yn gweithredu'n iawn. Bydd y golau'n cael ei atgyweirio cyn gynted ag sy'n ymarferol bosib, yn ddibynnol ar amodau tywydd a llanw addas a bod contractwr angorfeydd ar gael.

1.4 Daeth arolygydd o Dŷ'r Drindod i'r harbwr ar 10 Hydref 2023 i gynnal archwiliad o gofnodion o argaeledd y cymhorthion mordwyo lleol o dan reolaeth Cyngor Gwynedd. Yn dilyn yr archwiliad, derbyniwyd adroddiad a oedd yn nodi bod popeth mewn trefn dda ac effeithlon ac nad oedd unrhyw faterion yn codi oedd angen sylw pellach.

1.5 Atgoffir morwyr o'r angen i fordwyo'r sianel 1.5 awr naill ochr i'r penllanw wrth fordwyo cwch gyda dyfnder mwy nag 1.5 metr. Mae hyn oherwydd y dyfnder dŵr sydd ar gael dros y bar tywod wrth y fynedfa tua'r môr i'r sianel fordwyo.

1.5.1 Rydym hefyd yn atgoffa morwyr y dylid cysylltu â swyddfa'r harbwr cyn dod i mewn, i dderbyn y wybodaeth fordwyo ddiweddaraf. Bydd newidiadau i unrhyw gymhorthion mordwyo yn cael eu cylchredeg drwy Hysbysiad Lleol i Forwyr.

## H 2 Materion Gweithredol

2.1 Trwy gydol y gaeaf, mae symudiadau cychod pŵer a chychod hwylio yn nynesfeydd yr harbwr a'r sianel wedi bod yn gyfyngedig iawn, fodd bynnag mae symudiadau'r adran rwyfo wedi bod yn amlwg.

2.2 Er gwaethaf y tywydd gaeafol, braf yw adrodd bod y cychod hynny o fewn dyfroedd yr harbwr wedi aros yn sefydlog a diogel. Rhagwelir y bydd y cychod hynny sydd ar y lan yn yr iardiau cychod yn cael eu dychwelyd yn raddol i'r dŵr wrth i gyfnod y Pasg

ddynesu. Yn ôl nifer yr ymholiadau newydd a wnaed yn swyddfa'r harbwr dros y gaeaf ynglŷn ag argaeledd angorfeydd, mae'r gwasanaeth yn gobeithio denu cwsmeriaid newydd am y tymor sydd i ddod.

**H 3 Cynnal a Chadw**

3.1 Ar ddechrau'r flwyddyn, dechreuodd gwaith cynnal a chadw i angorfeydd yr harbwr yn dilyn archwiliad gan gontractwr angorfeydd lleol. Fel rhan o'r gwaith cynnal a chadw, cafodd rhannau treuliedig o'r gadwyn ddaear eu cyfnewid am rai newydd ynghyd â'r cadwyni codi yr oedd angen eu cyfnewid. Disgwylir y bydd yr holl waith ar angorfeydd yn yr harbwr wedi ei gwblhau erbyn diwedd mis Chwefror.

3.2 Mae ysgolion newydd ar gyfer ochr y cei wedi'u danfon i safle'r harbwr a byddant yn cael eu gosod yn fuan, ar hyd wal y cei sy'n mynd heibio swyddfa'r Harbwrfeistr. Mae'r gwaith o gynhyrchu'r ysgolion wedi cael ei wneud gan weithiwr metel lleol i'w cyfnewid am y rhai hynny sydd bellach y tu hwnt i gael eu hatgyweirio.

3.3 Mae'r cwch MV Dwyfor ar hyn o bryd allan o'r dŵr ym Mhwllheli lle gwneir gwaith cynnal a chadw iddo. Mae injan y cwch yn cael ei hail-wampio a bydd propeler newydd yn cael ei osod. Mae’r gwaith yn cael ei wneud gan gwmni peirianneg forol lleol a leolir ym Mhwllheli.

3.4 Mae cwch patrôl Powercat yr harbwr hefyd allan o'r dŵr ar hyn o bryd ac yn y broses o gael gwaith cynnal a chadw wedi ei wneud iddo. Oherwydd newid yn y rheoliadau codio cychod, mae bellach angen i'r cwch dderbyn archwiliad blynyddol gan syrfëwr sy'n gymeradwy gan Asiantaeth y Môr a Gwylwyr y Glannau. Mae hyn i fod i ddigwydd ar ddiwedd mis Chwefror ac ar ôl hynny, bydd yr injans yn derbyn gwasanaeth, cyn i'r cwch ddychwelyd i ddyletswyddau gweithredol.

3.5 Mae staff yr harbwr wedi ymgymryd â gwaith adnewyddu'r meinciau o gwmpas yr harbwr ac mae rhagor o waith sydd angen ei gwblhau. Mae'r Gwasanaeth yn dal i dderbyn ceisiadau i leoli meinciau coffa o gwmpas yr harbwr, na ellir eu cyflawni ar hyn o bryd.

**H 4 Materion Eraill**

4.1 **Diogelwch yr Harbwr:** Disgwylir y bydd offer y cyfleuster Teledu Cylch Cyfyng yn yr harbwr yn cael ei uwchraddio, gyda chamera ychwanegol a delweddau camera wedi'u diweddaru yn cael eu darparu. Gobeithir y gellir cwblhau'r gwaith erbyn cyfnod prysur yr haf.

4.2 **Palmant yr Harbwr:** Mae slabiau palmant wedi torri a chodi o amgylch amgylchedd yr harbwr yn parhau i fod yn destun pryder, gyda staff yn gwneud atgyweiriadau pan fo modd neu'n ynysu'r ardal hyd nes y gellir gwneud atgyweiriadau. Mae angen rhagor o waith yn hyn o beth, yn enwedig o amgylch coed yr harbwr lle mae gwreiddiau'r coed wedi achosi i'r palmant godi.

4.3 **Borth-y-gest.** Yn dilyn ymgynghoriad lleol, bydd staff yr harbwr yn ymgymryd â rhaglen o waith cynnal a chadw ar feinciau eistedd a leolir ar dir sydd o dan reolaeth yr Adran Forwrol. Yn ogystal, bydd gwaith cynnal a chadw pellach yn cael ei wneud ar y waliau cerrig ger hen lecyn docio'r peilot.

4.4 **Morfa Bychan.** Mae'r caban traeth sydd wedi ei leoli ar hyn o bryd y tu cefn i swyddfa'r harbwr ym Mhorthmadog i gael ei symud i'r fynedfa i'r traeth ym Morfa Bychan er budd y staff yn ystod canol mis Mawrth, mewn pryd ar gyfer cyfnod y Pasg. Cwblheir y gwaith gan gwmni cludo nwyddau lleol.

## H5 Digwyddiadau

5.1 Er i ni ragweld hyn, nid yw'r Gwasanaeth wedi cael gwybod am unrhyw ddigwyddiadau arfaethedig yn Harbwr Porthmadog eleni. Dymuna'r Gwasanaeth atgoffa trefnwyr digwyddiadau o'r angen i roi gwybod yn ddigon buan am unrhyw ddigwyddiad arfaethedig i ni er mwyn iddynt dderbyn caniatâd.

5.2 Wrth ystyried caniatáu unrhyw ddigwyddiad, bydd y Gwasanaeth yn rhoi sylw dyladwy i'r wybodaeth a dderbyniwyd yn manylu ar yr amgylchiadau, o ran unrhyw gyfyngiadau, amodau i'w gosod neu derfynau sydd eu hangen i sicrhau diogelwch y cyhoedd a'r staff.

**Harbwr Porthmadog Harbour**

**Lleoliad Cyfredol Cymhorthyddion Mordwyo**

*Present Positions of Aids to Navigation*

*14/02/2024*


**Mae'r sianel yn newid yn aml ac mae angen cysylltu gyda'r Harbwrfeistr pan fydd angen defnyddio'r sianel**

*The buoys in the channel are subjected to frequent movement the Harbourmaster should be contacted for the latest information.*

*01766 512927 / 07879 433 147*

*malcolmhumphreys@gwynedd.llyw.cymru*

| | | | |
|---|---|---|---|
| Fairway | LFlw 10s | 52° 52.970 N | 004° 11.200 W |
| 1 | Q FL G | 52° 53.337 N | 004° 10.826 W |
| 2 | Q FL R | 52° 53.643 N | 004° 10.567 W |
| 3 | FL G 3s | 52° 53.651 N | 004° 10.061 W |
| 4 | FL R(2)5s | 52° 53.633 N | 004° 09.740 W |
| 5 | FL G(2)5s | Occasional | Achlysurol |
| 6 | FL R (3)10s | 52° 53.610 N | 004° 09.532 W |
| 7 | FL G (3)10s | Occasional | Achlysurol |
| 8 | FL G (4)15s | Occasional | Achlysurol |
| 9 | FL G (4) 15s | 52° 53.965 N | 004° 09.287 W |
| 10 | FL R 2.5s | 52° 54.209 N | 004° 09.234 W |
| 11 | FL R (5) 20s | 52° 54.449 N | 004° 08.965 W |
| 12 | FL G 4s | 52° 54.638 N | 004° 08.382 W |
| 13 | FL R 2s | Occasional | Achlysurol |
| 14 | FL R 6s | Occasional | Achlysurol |
| 15 | FL G (2) 5s | 52° 54.808 N | 004° 08.050 W |
| 17 | FL G 6s | 52° 55.015 N | 004° 07.866 W |


Harbwr Porthmadog Harbour
Mae'r sianel yn newid ei chwrs yn rheolaidd, cynghorir bod morwyr yn cysylltu efo'r Harbwrfeistr ym Mhorthmadog am y wybodaeth ddiweddaraf
The channel changes it's course on a regular basis, it's adviced to contact the Harbourmaster at Porthmadog for the latest information.
01766 512927 / 07879 433 147, VHF 12/16
Borth y Gest
Cei Balast
17 FLG 6s
15 FLG 2 5s
Bae Samson
12 Fl r 4s
Cwt powdr
Powder house
11 FLG5 20s
Traeth y Graig Ddu
Black Rock Sands
Banc y Gogledd
North bank
10 FLR 2.5s
9 FLG 4 15s
Cynghorir morwyr i beidio mordwyo dros y draethell oni bai fod o fewn 2 awr pob ochor i'r pen llanw, cychod gyda draft fwy na 1.5 i fod fewn 1.5 awr bob ochor i'r pen llanw.
The channel should not be used at any time other than 2hrs either side of high water,vessels with a draft greater than 1.5m should only use the channel 1.5 hrs either side of high water
1 FLG
2 Q FLR
3 FLG 3s
4FL R (2) 5s
6 FLR 3 10s
Trwyn Harlech Point
N
FAIRWAY
LFL W 10s
52'52.970 N 004'11.200 W
Rhybydd / Caution
Nid yw gael ei ddefnyddio ar gyfer mordwyo
Not to be used for navigation